# #29 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

(Ebrill & Mai 2023)

***Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni***

# Pam cynnal yr adolygiad hwn?

## Pwrpas y thema:

Ymchwilio a yw ***pob un o'n cwsmeriaid*** yn gallu cael mynediad yn hawdd i'n gwasanaethau ac, os nad ydynt, ym mha ffyrdd y byddai'n well gan ein cwsmeriaid **gael gwybodaeth** gan ateb a **chymryd rhan** yn y cyfleoedd y mae ateb yn eu cynnig i gwsmeriaid.

## Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg hwn?

Trwy gydol Ebrill a Mai 2023


### Diolch am eich cefnogaeth! 👍

Cawsom wybodaeth gan 310 o'n cwsmeriaid.


# Dyma ddywedoch chi. . .

## Dyma'r ymatebion a gafodd ni:


**1.** Atebwyd gan: 310 Nid atebwyd gan: 0




**2.** Atebwyd gan: 289 Nid atebwyd gan: 21



**3.** Atebwyd gan: 288    Nid atebwyd gan: 22



**4.** Atebwyd gan: 273 Nid atebwyd gan: 37





## Dyma rai o'r sylwadau a gofnodwyd gennym:

- Prydau bwyd i bawb
- Digwyddiadau gan ateb i gael mynediad i wahanol wasanaethau
- Diwrnodau o hwyl i'r teulu, gyda stondinau sy'n rhoi cyngor
- Boreau coffi, cyfarfodydd ag asiantaethau cymdeithasol, yn enwedig rhai sy'n hybu cymorth ac ymwybyddiaeth ynghylch pobl hŷn ac unigrwydd
- Dosbarthiadau gwnïo a ariennir yn fwy ar gyfer pobl anabl

- Digwyddiadau llai o faint ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd mynychu digwyddiadau mawr oherwydd problemau iechyd meddwl, niwrowahaniaeth, ac ati
- Gweithgareddau ar benwythnosau/gyda'r nos
- Allgymorth — gallech hefyd ystyried digwyddiad blynyddol/ffair flynyddol i godi arian, dosbarthu llythyr sy'n nodi y byddai ateb yn hoffi codi arian a'i fod am i'r tenantiaid ddewis yr elusen. Dyma un ffordd o gynnwys pawb
- Cynrychiolwyr lleol (cwsmeriaid/staff) yn yr ardal
- Cymorth i bobl gael gwaith
- Canolfan galw heibio sy'n cynnig te a choffi
- Mwy o ddigwyddiadau "Cwrdd â'r Cwmni" — i ennyn cefnogaeth
- Toiledau hygyrch gwell i gwsmeriaid sydd ag anableddau mwy difrifol, ym mhob un o'ch digwyddiadau
- Digwyddiadau amlddiwylliannol er mwyn i bawb allu dysgu mwy am ei gilydd ac am eu cymuned
- Rhywbeth sy'n gysylltiedig â gerddi/yr awyr agored, fel eu bod yn edrych yn well/yn lanach
- Digwyddiadau glanhau traethau
- Digwyddiadau cymunedol sy'n addas i bobl LHDT a phobl anabl
- Mae pobl yn wahanol i'w gilydd. Mae rhai'n fwy gweithgar na'i gilydd o safbwynt cymryd rhan yn y gymuned. Yn fy marn i, mae'r hyn yr ydych yn ei gynnig yn awr o safbwynt digwyddiadau'n ddigonol
- Mae pawb yn cael eu cynnwys bob amser. Mae yna gyfleoedd a digwyddiadau o wahanol fathau'n cael eu cynnig yn aml. Does fawr ddim arall y gallech chi ei wneud
- Cyfarfodydd â'r rheolwr ardal ddwywaith y flwyddyn ar Teams neu Zoom
- Diwrnodau i'r teulu, sy'n cynnwys gweithgareddau i blant, e.e. celf a chrefft, a gweithgareddau i gwsmeriaid hŷn, e.e. te prynhawn neu gyfle i chwarae bingo
- Digwyddiadau i gymell pobl i ofyn am help gyda'u hiechyd meddwl ac unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'u heiddo
- Sicrhau bod modd i bobl anabl gael mynediad yn hawdd bob amser, yn enwedig i'r toiledau
- Cyfarfod a drefnir yn benodol ar gyfer cwsmeriaid ifanc yn ogystal â theuluoedd ifanc, fel y gall rhieni ddod â'u plant gyda nhw heb deimlo eu bod yn tarfu ar gyfarfod sy'n llawn o gwsmeriaid hŷn
- Pob gŵyl grefyddol / pob digwyddiad a diwrnod LHDTC / help a chyngor ynghylch y menopos / digwyddiadau cymdeithasol i bobl ifanc a rhai sydd yn eu harddegau / diwrnodau a digwyddiadau cymunedol
- Digwyddiadau ar-lein — dyw fy mab sydd yn ei arddegau ddim yn gadael ei ystafell wely oherwydd awtistiaeth

**5.** Atebwyd gan: 288 Nid atebwyd gan: 22





**5.** Pa grwpiau neu asiantaethau y mae gennych gysylltiadau â nhw'n barod, e.e. Canolfan Hamdden/Age Cymru/Hafan?

Atebodd 288 o gwsmeriaid y cwestiwn. Dywedodd bron 60% o'r bobl hynny nad oeddent yn defnyddio unrhyw asiantaeth gymorth. Dywedodd rhai eu bod yn defnyddio mwy nag un. Yn y graff, dim ond yr asiantaethau a gaiff eu defnyddio gan 5 neu fwy o gwsmeriaid sydd wedi'u dangos. Mae'r asiantaethau eraill y soniodd cwsmeriaid amdanynt, sy'n dod i gyfanswm o 18%, yn cynnwys y canlynol:

- **Versus Arthritis**
- **Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro**
- **Cyngor Sir Penfro**
- Grwpiau cerdded lleol
- **Hafal:** Y prif sefydliad yng Nghymru sy'n gweithio gydag unigolion sy'n gwella o broblemau iechyd meddwl
- **Bro Cerwyn**: cymorth gydag iechyd meddwl

- Clybiau cymdeithasol
- Caffis, canolfannau a neuaddau cymunedol
- Cynghorau tref a chymuned
- Grwpiau cymunedol
- Gerddi cymunedol
- **Ymchwil Canser**
- **Hafan Cymru**: cymdeithas dai elusennol sy'n darparu llety a chymorth i fenywod, dynion, eu plant a phobl ifanc ledled Cymru
- **Norman Industries:** Mae Norman Industries yn gweithio gyda phobl sydd ag ystod eang o anableddau; mae ganddo leoliadau seiliedig ar waith, megis ffatri, gweithdy gwaith crefft, siop fferm a chaffi
- Grŵp i bobl drwm eu clyw
- Llyfrgell
- **ateb**
- Help o ran camdriniaeth rywiol
- **Clwb Arwyddo a Rhannu**, Sir Benfro: Cafodd ei sefydlu'n wreiddiol yn 2013 i ddiwallu anghenion pobl fyddar ac annog pobl i ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Mae croeso i bawb o bob oedran, beth bynnag yw natur eich byddardod, a darperir ar gyfer pob dull cyfathrebu
- **Cymdeithas Gofal Sir Benfro:** Gweithredu ar gyfer y Digartref yn Sir Benfro yw'r brif elusen ar gyfer digartrefedd yn Sir Benfro, ac mae'n helpu dros 1500 o bobl ddigartref bob blwyddyn
- **Homeless Pembrokeshire**
- **The VC Gallery**: Rydym yn helpu cyn-filwyr a phobl yn y gymuned ehangach drwy eu cael i gymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau celf. Rydym yn credu'n gryf bod celf a diwylliant yn gallu gwella iechyd, lles ac ansawdd bywyd yn gyffredinol
- **TPAS Cymru**: Mae TPAS Cymru (sef y Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid gynt) wedi bod yn cynorthwyo tenantiaid a landlordiaid tai cymdeithasol ledled Cymru i ddatblygu cyfranogiad effeithiol ym maes tai ers dros 30 mlynedd
- Eglwys
- **Women Supporting Women** (De Penfro)
- **Slimming World**
- **Pembroke Siblings Scouting**
- **Y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth**
- **Gofalwyr Ifanc**

**6.** Atebwyd gan: 273 Nid atebwyd gan: 37




## Dyma rai o'r sylwadau a gofnodwyd gennym:

"Cylchoedd chwarae SNAP. Cânt eu hariannu gan y Loteri ac maent yn helpu plant 18 mis i 2 flwydd oed sydd ag anghenion ychwanegol. Gwnaethant golli eu cyllid i gynnig darpariaeth ar gyfer plant hyd at 4 oed, felly dim ond uchafswm o 6 mis y maent yn ei roi i gynorthwyo plant. Dyw hynny ddim yn ddigon o amser i gynnal asesiad priodol neu sefydlu trefn arferol."

"Banciau bwyd, efallai, i bobl sydd eu hangen; sicrhau bod rhestr ar gael i bawb, oherwydd nid yw pawb yn gwybod ble maen nhw na sut mae cysylltu â nhw."

"Cyfnewidfa mân dasgau, h.y. cael rhywun i wneud ychydig o waith llaw neu dorri'r lawnt, a'u had-dalu drwy lanhau ffenestri"

"Rwyf newydd ddarganfod dyn llaeth, sy'n wych oherwydd nad ydw i bob amser yn gallu mynd allan. Mae'n dod ag wyau, menyn, llaeth a bara, felly gallech roi gwybod i denantiaid beth sydd ar gael yn eu hardal."

“Grwpiau eraill ateb fel bod pobl yn gallu rhannu newyddion”

“Glanhau traethau, cefnogi elusennau anifeiliaid a grwpiau amgylcheddol”

“Mae neuadd gymunedol Pennar a Neuadd Pater yn ddefnyddiol; mae eglwysi lleol yn cynnal clybiau cinio a boreau coffi — byddai’n braf pe bai rhywun yn mynychu bore coffi i rannu gwybodaeth â’r tenantiaid”

“Lleoedd sy’n cynnwys atyniadau a gwasanaethau i blant”

“Canolfannau hamdden lle gellir nofio am ddim”

“Changing Places (ap sy’n rhoi cyfarwyddiadau i gyrraedd toiledau anabl cyfagos)”


“Y gymuned LHDTC”

“Byddai cael rhandiroedd yn beth da”


Atebodd 273 o gwsmeriaid y cwestiwn. Awgrymodd rhai fwy nag un asiantaeth, a nododd pobl eraill bethau fel marc cwestiwn neu ateb nad oedd yn gysylltiedig â’r cwestiwn. O blith y sawl a atebodd y cwestiwn, roedd mwyafrif y cwsmeriaid yn teimlo na allent enwi asiantaeth a allai helpu. Fel yn achos y cwestiwn diwethaf, mae unrhyw asiantaeth neu unrhyw fathau o asiantaethau a gynigiwyd gan gwsmeriaid fwy na 5 gwaith wedi’u cynnwys yn y graff. Nododd tipyn o gwsmeriaid mai masnachwyr dibynadwy, crefftwyr, tasgmon a help yn y tŷ neu’r ardd oedd y prif fath o gymorth y byddent yn ei awgrymu. Roedd mathau eraill o asiantaethau cymorth a grybwyllwyd lai na 5 gwaith yn cynnwys y canlynol:

- elusennau dyled
- cymorth gydag awtistiaeth
- cymorth gyda diabetes
- ysgolion
- gwasanaethau gofal lleol
- asiantaethau cyflogaeth
- tripiau siopa bwyd
- oergelloedd cymunedol / banciau bwyd
- help ariannol
- yr RNIB
- cymorth i bobl drwm eu clyw
- gwasanaethau lleol sy’n dosbarthu bwyd
- Sbardun: prosiect Sir Benfro yn Dysgu, sy’n cynnal amrywiaeth eang o gyrsiau llawn hwyl, am ddim a chyffrous i oedolion a theuluoedd mewn ardaloedd a dargedir
- Yr heddlu

**7.** Atebwyd gan: 303 Nid atebwyd gan: 7




**8.** Atebwyd gan: 303 Nid atebwyd gan: 7



# Dyma wnaethom …

## Ar sail canfyddiadau thema e2i, rydym yn bwriadu cymryd y Camau Gwella canlynol:

1. Ar ôl astudio'r ymatebion i gwestiwn 4, sef "Yn eich barn chi, pa fathau o gyfleoedd a digwyddiadau y dylem fod yn eu darparu i'n cwsmeriaid, fel bod pawb yn cael eu cynnwys?", creu rhestr o newidiadau a allai gael eu gwneud i'r pecyn o gyfleoedd ymgysylltu a gynigir gan y fenter Ymgysylltu i Wella, er mwyn sicrhau cynhwysiant.

2. Adolygu effaith yr Adolygiadau Contractau Meddiannaeth ar ôl y 12 mis cyntaf er mwyn ystyried data ynghylch dymuniadau cwsmeriaid o ran cyfathrebu.

3. Ar sail ein menter Iechyd a Lles, ymchwilio ymhellach i'r tueddiadau a'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r adborth a roddodd cwsmeriaid ynghylch pa grwpiau ac asiantaethau y mae ganddynt gysylltiadau â nhw; byddwn yn rhannu â'r cwsmeriaid i gyd, drwy gyfryngau cymdeithasol, yr opsiynau ar gyfer lles yn y dyfodol

4. Cydweithio â'r Cydlynydd Byw gyda Chymorth i nodi'r asiantaethau sy'n darparu cymorth ar hyn o bryd yn ein heiddo byw gyda chymorth a'r rhai sy'n darparu cymorth o ran tai yn Sir Benfro, sydd wedi'u contractio gan Gyngor Sir Penfro i wneud hynny. Yna, byddwn yn darparu gwybodaeth fwy manwl i gwsmeriaid drwy gyfryngau cymdeithasol er mwyn iddynt allu deall pa gymorth sydd ar gael.

---

Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, mae croeso i chi ddod i'n ***Grŵp Cynllunio Arolygon*** sydd i fod i gwrdd ar 14/11/23, 10:00yb. Cofiwch gadw llygad ar ein gwefan am ddiweddariadau.

---

## Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r adolygiad thematig hwn

*Angen gwybod mwy neu godi mater?*

Anfonwch neges ebost atom: **engage@atebgroup.co.uk**

Ewch i'n gwefan: **www.atebgroup.co.uk**

Ffoniwch ni neu anfonwch neges destun atom: 07500 446611 / / 01437 774766

*Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni*